**`CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS.**

**BETWS YN RHOS AND LLANELIAN YN RHOS COMMUNITY COUNCIL**

CLERC : Mel Jones, 2 Lon Hafan Abergele LL22 8QJ
Ffon : 07833 548435 e-bost : clerc@betwsallanelian.org.uk

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YM MHAFILIWN CHWARAEON, BETWS YN RHOS AM 7.30 y.h. NOS LUN, 3ydd Mehefin, 2024.**

1. **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd John EVANS pawb i'r cyfarfod

2. **YN BRESENNOL**

Y Cynghorion Gwenda DAVIES; Irwedd GRIFFITHS; Glena Humphrey, D. Gwyn Jones, John D. Roberts, Hefin WILLIAMS, Gethin OWEN and Cynghorydd y Sir - Ifor G. Lloyd, Clerc – Mel Jones

3. **YMDDIHEURIADAU**

Cynghorion Goronwy R. WILLIAMS a Bryn JONES

4. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny.

Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD yn nawr yn Gadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau yn ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

Nid oedd datganiad o ddiddordeb gan unrhyw un a oedd yn bresennol.

5. **COFNODION**

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13 fed Mai 2023 (Cynnig - Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS ac eilwyd gan y Cynghorydd Hefin Williams)

6. **MATERION YN CODI**

Cododd y Clerc fod rhaid i'r Cynghorwyr arwyddo ynglyn a derbyn neu tynnu yn ol o dderbyn cydnabyddiaeth ariannol. Roedd y Cynghorwyr yn bresennol yn benderfynnu tynnu yn ol o dderbyn y cydnabyddiaeth ac fe arwyddwyd y ffurflenni. (Cynghorwyr Goronwy R. Williams a Bryn Jones i arwyddo y ffurflenni yn y cyfarfod nesaf)

## 7. CYLLID

Cafwyd Adroddiad Misol am y cyfnod dod i ben 20fed Mai 2024. Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-

(1) Cyfrif Cymunedol = £7,621.91 (Dwyn Ymlaen)
Arian i Mewn = DIM

Arian Allan = £5.00 (Costau Banc - DR)
= £405.39 (Cyflog y Clerc – (Tom Jones) SO)

= £101.40 (Taliad i'r HMRC (Tom Jones)– SO)
= £570.12 (Cyflog y Clerc – SO)
= £142.40 (Taliad i'r HMRC -SO)
= £41.70 (BT-Tal Misol WiFi-arferol-TAL
= £50.00 (RBL- Torchau Sul y Cofion Siec– 200156)
= £264.00 (Zurich Insurance – Ysiwrant y Cyngor
=£189.00 (Un Llais Cymru – Aelodaeth am flwyddyn)

**Cyfanswm - £1,911.41**

Cyfrif Cymunedol = £5,710.50 (Cludwyd Ymlaen)

(2) Cyfrif Busnes = £5,668.48 (Dwyn Ymlaen)
Arian Allan = £0.00
Arian i Mewn = £0.00
Cyfrif Busnes = £5,668.48 (Cludwyd Ymlaen)

Cyfanswm = £11,378.98 (Cludwyd Ymlaen).

Cytunodd pawb a'r adroddiadau yma.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol mae'n rhaid yn awr gael cytundeb y Cyngor i dalu pob anfoneb

Mae'r anfonebau a restrir isod angen ei talu:

£38.34 – BT – Infois misol WiFi.

Cytunodd pawb i'r Clerc dalu yr anfoneb yma.

Mae cost aelodaeth yr SLCC yn £154.00 am y flwyddyn ac heb gael ei prosesu eto.

## 8. GOHEBIAETH

**Derbynwyd**

1. Ebyst arferol oddi wrth Un Llais Cymru, Gwasanaeth Cyhoeddus Gweithredol ayyb gyda'r rhai perthnasol yn cael ei gyrru ymlaen i'r Cynghorwyr. Mae rhain ar gael gan y Clerc
2. E bost gan Cynghorydd Ifor Lloyd ynglyn a arian ar gael ar gyfer prosiectau ac astudiaethu dichonoldeb i elwa y gymuned. Wedi trafod y mater gofynwyd i'r Clerc wneud ymholiadau hefo adran datblygu lleol i gadarnhau os oedd yn bosib cael a grant am wella derbyniad WiFi a ffon symudol ac hefyd am wasanaeth i lenwadu batris cerbydau trydan.

3. E bost gan CBSC fod Ffordd Cefn Isa, Dolwen yn cael ei chau am ddiwrnod ar y 19fed Mehefin 2024.Dim sylwadau eisio ei yrru i Gyngor y Sir.

4. Gwybodaeth gan CBSC fod cyfarfod ynglyn a Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar lein rhwng 6 y.h a 8 y.h.ar 12/6/24. Mae y Clerc i ymuno a'r cyfarfod a diweddaru y Cynghorwyr wedi hynny.

5. E bost hefo gwybodaeth fod Cynghorydd Aaron Wynne, Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned yn croesawu'r cyfle i Glercod Tref a Chymuned a/neu Gynghorwyr i cyfarfod rhagarweiniol a trafod unrhyw bryderon neu gyfleoedd gan y Cyngor. Roedd y Cynghorwyr yn fodlon nad oedd rhaid cyfarfod hefo Cynghorydd Wynne gan fod y Cynghorydd Ifor Lloyd yn bresennol yn ein cyfarfodydd ac yn medru ateb unrhyw faterion

6. Gwybodaeth gan Un Llais Cymru ei bod yn rhedeg nifer o sesiwns hyfforddiant am ddim dros Zoom i Gynghorwyr yn Sir Gonwy. Rhoddwyd y nifer ddyddiadau a'r pynciau i'r Cynghorwyr ac os oes diddordeb i adael i'r Clerc wybod.

7. E bost wedi gael ei dderbyn gan unigolyn yn preswylio yn Betws yn Rhos ynglyn a cerbydau yn trafeilio yn hynod o gyflym rhwng y Cwrs Golff ac y gornel ger yr Ysgol. Roedd gan yr Heddlu ddim diddordeb yn amlwg. Mae y Clerc wedi cysylltu a Peirianydd Traffig Cynorthwyol o adran Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau CBSC. Maent yn barod i arolygu a mesur cyflymder drwy y bentref yn y dyfodol. Mae'r Clerc wedi diweddaru yr unigolyn. Mae yn amlwg fod hyn yn broblem mewn llefydd eraill yn y pentref a fydd y Clerc yn diweddaru CBSC pan fyddent yn dechrau mesur y cyflymder.

.

**Anfonwyd**

1. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
2. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

**9. GRANTIAU**

-

a. **Ceisiadau i'r Cyngor**

E bost wedi cael ei dderbyn gan Gareth Erlandson – Ficer Hen Golwyn a Betws yn Rhos – ynglyn a grant o £400.00 i dalu am gost aelodaeth am flwyddyn ysgol 2024/2025 yn rhaglen 'Transforming Lives for Good' fydd yn dechrau yn mis Medi yn Ysgol y Plas, Llanelian. Wedi trafodaeth penderfynodd fuasai'r ymgais yn cael ei gefnogi gyda ceisiad i gronfa y Fferm Solar. Roedd y Clerc am siarad hefo Ficer Erlandson a gyrru'r E bost i Cynghorydd Gwyn Jones i ddelio hefo'r ymgais.

b. **Ceisiadau gan y Cyngor**

a. Mae CVSC yn awr yn rhoi cymorth i'r Cyngor chwilio am grantiau i gefnogi projectau o fewn y gymuned.

b. Mae adnewyddio caeau chwarae plant Betws yn Rhos a Llanelian yn cael ei drafod o hyn ymlaen yn eitem 12.

10. **CYNLLUNIO - [http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer](http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer)**

1. **Cyfeirnod: 0/51670** **Ymgeisydd: Mr P Ryan**

Cynllun: Estyniad ochr unllawr arfaethedig i ffurfio ystafell gyfleustodau newydd

Safle: Ty'n Y Coed, Cilgwyn Road, Llanelian Yn Rhos, Colwyn Bay LL29 8YR

Mae'r cynllun yn cael ei drafod gan Cyngor y Sir ac roedd dim trafodaeth ychwannegol.

2. **Cyfeirnod: 0/51432** **Ymgeisydd: Mr Berwyn Jones**

Cynllun: Caniatâd amlinellol i godi annedd ar gyfer menter wledig newydd ar dir ym Mryn Ffanigl Ganol, Abergele (Adeiladu Ty Newydd)

Safle: Bryn Ffanigl Ganol, Bryn Ffanigl Road, Rhyd Y Foel, Betws Yn Rhos LL22 8NF.

Mae'r cynllun wedi cael ei droi i lawr gan Cyngor y Sir. Roedd dim manylion ar gael ac roedd dim trafodaeth ychwannegol.

3. **Cyfeirnod: 0/51667** **Ymgeisydd: Rhys and Rosie Jones**

Cynllun: Estyniad deulawr i'r ochr ac estyniad unllawr i'r cefn, ynghyd â rhai addasiadau mewnol.

Safle: Pencraig Pencraig Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NT

Mae’r cynllun yn cael ei drafod gan Cyngor y Sir ac roedd dim trafodaeth ychwannegol.

**4. Cyfeirnod: 0/51618 Ymgeisydd: Nina Cole**

Cynllun: Cadw strwythurau'r pafiliwn am gyfnod dros dro o hyd at dair blynedd

Safle: White Lion Inn Llanelian Road Llanelian Yn Rhos Colwyn Bay LL29 8YA

Mae’r cynllun yn cael ei drafod gan Cyngor y Sir ac roedd dim trafodaeth ychwannegol.

**5. Cyfeirnod: 0/51608 Ymgeisydd: Mrs N Williams**

Cynllun: Cynnig ar gyfer estyniad anecs

Safle: Tan Y Coed Croes Engan Road Trofarth Betws Yn Rhos

Mae’r cynllun yn cael ei drafod gan Cyngor y Sir ac roedd dim trafodaeth ychwannegol.

**YMGAIS NEWYDD**

**6. Cyfeirnod 0/51728 Ymgeisydd: Mr Mark Blissitt**

Cynllun: Codi Annedd a thai allan

Safle: Aelwyd Uchaf Cill Llidiart Road Betws yn Rhos LL22 8A

Roedd yn ymgais wedi cael ei yrru i’r Clerc ar 3/6/24. Yn y drafodaeth fe edrychwyd ar y ffeil cynllunio ar y we. Roedd ddim yn glir os oedd yr ymgais o dan menter wledig. Y Clerc i gysylltu a swyddog gynllunio Ian Gibbons (01492 575703) i gadarnhau.

Y canlyniad oedd fuasai’r ymgais yn cael ei wrthwynebu. Fuasai yn rhoi blaenoriaeth perygl i ddatblygiadau yn aradaloedd gwledig mewn safle gwyrdd. Roedd pryder fuasai’r adeilad i’w weld yn glir ac allan o’i le.

Adran Cynllunio CBSC i wneud y penderfyniad.

## 11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL

Mae’r Archwilaid Blynyddol am y flwyddyn yn gorffen 31ain o Fawrth 2024 yn mynd i fod yn ‘Archwiliad Llawn’. Mae’r gwaith eisio ei gwbwlhau erbyn diwedd Mehefin 2024.
Mae’r Clerc yn gweithio gyda Tom Jones i gwblhau y gwaith.

Mae y ddogfen mantol am 2023/2024 wedi cael ei yrru i'r Cynghorwyr er ei gwybodaeth.

## 12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

Sonwyd Cynghorydd Ifor Lloyd am gronfa newydd i ddod a llinellau fiber i ardaloedd Dolwen a Betws yn Rhos fydd yn godi cyflymder WiFi. Fydd grant i gael i breswylwyr heb ddim cost iddynt. Mae potential fydd 256 o dai yn yr ardal yn medru derbyn y gwasanaeth. Mae'r Cynghorydd LLoyd yn mynd i drefnu cyfarfod Zoom hefo'r Clerc a Clerc Llanfair T.H. i edrych ar y posibilrwydd i estyn yr ardal fydd yn medru cael y gwasanaeth.

## 13. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL

### a. Caeau Chwaraeon Plant -Betws yn Rhos/Llanelian.

Mae'r Clerc wedi bod yn trafod gwahanol drofeydd gyda swyddogion Cymunedau, Ymgysylltu a Chyfranogiad – Conwy a Sir Ddinbych er mwyn casglu y gwybodaeth angenrheidiol a chostau ar gyfer chwilio am ffynonhellau ariannol fel grant o Fferm Wynt Gwynt y Mor, tuag at adnewyddu caeau chwarae plant Betws yn Rhos a Llanelian.

Sonwyd y Clerc am archwyliad yn cae chwarae Betws yn Rhos yn mis Hydref 2021 oedd yn dangos fuasai rhai pethau yn agored i'w adnewyddu a'i cadw.

Mae y Clerc yn cyfarfod unigolyn o 'Creative Play' dydd Iau 6/6/24 yn Cae Chwarae Betws yn Rhos i drafod peth fuasai'r gost i adnewyddu yr offer a cael offer newydd. Fydd copi o'r archwyliad yn cael ei rhannu hefo Creative Play. Fydd y Clerc yn adnewyddu'r Cynghorwyr.

### b. Diffibrilwyr.

.

Mae'r Clerc wedi ymchwil rhoid diffibrilwr yn Dawn. Mae Cyngor Cymuned Glan Conwy wedi medru gosod diffibrilwyr ar byst pren oedd wedi cael ei gosod ger pyst trydan gan Cyngor Conwy. Mae'r Clerc wedi gyrru E bost i Clerc Glan Conwy ond heb gael ymateb. Mae Tomos Hughes wedi rhoid manylion Richard Cochran – Adran Goleuadau Stryd CBSC – oedd wedi gwneud y gwaith yn Glan Conwy. Mae'r Clerc weid gyrru E bost i Mr Cochran. Mae Cynghorydd John Roberts yn barod i gyfarfod Mr Cochran hefo'r Clerc.

### c. Yr Hwb

Mae angen gwirfoddolwyr iw gynnal, a bydd ar agor o 9:00yb hyd at 12:00 yh bob bore Dydd Mawrth yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.

d. **Gwlau blodau**

Mae Cynghorydd Gethin OWEN yn ymdrechu i roid y gwlau blodau ar ochr y ffordd B5381 wrth arwydd Betws yn Rhos ac yn groesffordd Rhwng y Ddwyffordd. Mae planhigion ar gael gan y Cyngor Sir.
Mae pryder ynglyn a dim planhigion yn potiau o gwmpas pentref Betws yn Rhos ac chwyn/glaswellt o gwmpas y meinciau yn Ffordd Abergele heb gael ei dorri.

Mae'r Clerc yn mynd i gysylltu a Adran Gerddi a Adran AFC Cyngor Conwy.

e. **Toiledau yn Betws yn Rhos.**

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu i Cyngor Conwy ynglun a'r toiledau di-ddefnydd yn Betws yn Rhos. Dim ateb hyd yn hyn.

Mae nifer o Gynghorau Cymuned wedi cymeryd toiledau drosodd gan y Cyngor Sir ac mae'r Clerc wedi siarad hefo Diane Roberts o Cyngor Cymuned Llangernyw sydd yn rhedeg toiledau yn y pentref. Mae y Cynghorydd sydd yn delio hefo nhw yn mynd i gysylltu a'r Clerc.

Os fydd toiledau pentref Betws methu cael ei adnewyddu fydd toiledau newydd fuasai ar dalcen y Pafiliwn Chwareon yn gorfod cael ei adeiladu. Fuasai rhaid i'r Pwyllgor Chwaraeon ymgeisio am y cynllun.

f. **Materion arall**

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu i Cyngor y Sir ynglyn am led y rhwystr (barrier) ar ffin y llwybyr cyhoeddus a'r ffordd fawr yng nghanol pentref Betws yn Rhos a hefyd y 'gazebo' dros yr afon yn Llais Afon sydd yn debyg i amharu hefo ochr yr afon. Mae Cyngor y Sir wedi ateb ac yn cael ymchwil o dan cyfeirnod 112632. Mae asesiad fod y gwaith yn ddi-frys.

**14. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT**

Mae'r Cyngor Sir wedi cytuno y praesept o £13,002.00
Fydd £4,334.00 yn cael ei dalu i'r Banc ar 19/4/24, 16/8/24 a 13/12/84

**15. FFERMYDD GWYNT TIROL AC ALLTRAETH AWEL Y MOR/GWYNT Y MOR/MONA**

Mae'r pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais a ddaw i fyny.
Gweler y linciau yma am wybodaeth i'r Ffermydd gwynt Alltraeth**:**
Overview

About us About the Project What the Project will look like Processes and Next Steps
Our work so far Interactions with other marine users
Information Hub Visualisations of the windfarm Interactive map.

**16. CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN YN RHOS**

Mae yr eitem yma ar yr agenda er mwyn cadw cofnod o sut mae y gwaith yn dod yn ei flaen, ac er mwyn rhoi cefnogaeth pan y bydd angen.

Mae'r gwaith yn brysur fynd yn ei flaen.

Bydd cyfarfodydd y Cyngor yn cael ei cynnal ym Mhafiliwn Chwaraeon Betws yn Rhos nes bod yr adeilad newydd yn Llanelian wedi ei orffen.

Roedd penderfyniad wedi cael ei wneud fuasai'r Cyngor yn talu am WiFi yn yr adeilad newydd. Mae'r Clerc wedi trefnu hyn hefo BT ac wedi cysylltu yn aml hefo Mr Lewis Arnold o bwyllgor y ganolfan gymunedol. Mae'r gwaith gan BT yn mynd ymlaen ac mae eisio gosod llinell newydd i'r adeilad. Mae BT yn cymeryd oesoedd i wnued y gwaith.

Mae'r Clerc wedi gofyn I CCTV Services fynd I Llanelian yr wythnos dechrau 10/6/24 i roid cost i osod system teledu ayyb yn y Ganolfan yn debyg i'r system yn ei le yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.

**17. Y GADLAS**

Dim awgrymiadau am erthygl.

**18. UNRHYW FATER ARALL**

a. Mae Tom Jones a'i bartner yn ddiolchgar am y gwahoddiad allan i ginio i ddangos diolch y Cyngor i Tom am y gwaith a wnaeth ar rhan y Cyngor pan oedd yn Glerc. Mae Tom i ffwrdd yn gweithio ond mae'r Clerc yn mynd i siarad hefo Tom Jones i gael dyddiad.
b. Codwyd Cynghorydd D Gwyn Jones ymgais am grant am £10,386 o gronfa Parc Solar ynglyn a gwaith ychwanegol yn Ganolfan Pentref Llanelian. Roedd cytundeb i'r ymgais gael ei yrru i Gronfa Parc Solar.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.25 yh.

CADEIRYDD …………………………………………………….John EVANS

CLERC…………………………………………………………… Mel Jones

DYDDIAD: